

Cyfarchion gan y Prif Ymchwilydd



Croeso i rifyn 11 o gylchlythyr CorCenCC! Yn y rhifyn yma, rydym yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am sut mae gwaith y prosiect wedi datblygu ar draws pob pecyn gwaith unigol, yn ogystal â rhoi'r diweddaraf am rai o'n cynlluniau ar gyfer misoedd yr haf. Dyma adeg y flwyddyn pan fydd tîm CorCenCC yn dechrau mynd i fwy o gynadleddau academaidd ('tymor y cynadleddau') a digwyddiadau cyhoeddus, felly mae digon o bethau cyffrous o'n blaenau ni! Y mis yma, mae gyda ni adran 'myfyrio o'r tu fewn' gydag ymchwilydd Pecyn Gwaith 1 yn rhannu eu meddyliau am y profiadau mwyaf diddorol, difyr a heriol – hyd yn hyn – wrth iddyn nhw gasglu data Cymraeg ar gyfer CorCenCC. I gyd-fynd â hyn, mae gyda ni gyfweiliad gyda rhai o'r bobl sydd wedi bod mor garedig â rhoi data i'r corpws. Gobeithio y bydd hyn yn eich helpu i ddeall pa mor hawdd yw hi i 'gymryd rhan' yn y prosiect yn ogystal â'ch ysbrydoli i gyfrannu at CorCenCC hefyd! Fel gyda'r rhifynnau blaenorol, byddwn yn cyflwyno aelod arall o deulu estynedig CorCenCC i chi. Tro Steven Neale, Cynorthwydd Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd, yw hi y mis yma. O, ac os oes gennych unrhyw syniadau am eitemau/cynnwys y cylchlythyr yma yn y dyfodol, neu os ydych chi am helpu i'w roi at ei gilydd, cysylltwch ar bob cyfrif!

Mwynhewch! Dr Dawn Knight (Prifysgol Caerdydd)

Diweddariadau ar Becynnau Gwaith (WPs 1-5) CorCenCC

Mae'r gwaith ar brosiect CorCenCC wedi'i ddsbarthu ar draws 6 pecyn gwaith cydgysylltiedig, y mae gan bob un ohonynt dasgau, nodau ac amcanion penodol. Mae WPO yn cynnwys gweithgareddau dylunio, cwmpasu a gweithgareddau hyfforddi, ac yn cynnwys holl aelodau tîm y prosiect. Ceir diweddariadau byr ar Becynnau Gwaith 1-5 isod.



Nod: Casglu, trawsgrifio ac anonymeiddio enwau o'r data (arweinydd: Steve Morris)

Dros y misoedd diwethaf rydyn ni wedi bod yn dechrau mynd i'r afael â'r gwaith roedden ni i gyd yn edrych ymlaen ato gymaint, sef recordio siaradwyr Cymraeg wrth iddyn nhw ddefnyddio'r iaith. Hyd yma, rydyn ni wedi bod yn casglu iaith ar draws Cymru, o Sir Gâr yn y de, i Ynys Môn yn y gogledd, a llwyth o lefydd rhwng y ddau hefyd! Rydyn ni'n bwriadu ailymweld â'r llefydd hyn dros y misoedd nesaf, ac ymweld ag ambell le newydd hefyd wrth gwrs. Cadw golwg ar ein tudalen Facebook ac ar ein cyfrif Trydar er mwyn cael gwybod pryd rydyn ni yn ymweld â dy ardal di. A sôn am iaith lafar, rydyn ni hefyd wedi penodi nifer o drawsgrifwyr er mwyn inni allu cadw'r iaith lafar yma ar ffurf testun yn y corpws.



Nod: Datblygu'r set tagiau/tagiwr rhannau ymadrodd (arweinydd: Dawn Knight)

Rydym ni bron wedi wedi cwblhau'r gwaith ar ein tagiwr rhannau ymadrodd pwrpasol. Rydym wedi bod wrthi'n datblygu hyn ers tipyn. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi bod yn gwirio allbwn y tagiwr i ganfod pa mor gywir yw e yn ogystal â darganfod lle gallen ni ei wella yn y dyfodol. Cadwch olwg am fersiwn demo ar y we fydd yn cael ei rhyddhau yn fuan!



Nod: Datblygu tagiwr semantig i'r Gymraeg a thagio ystyr yr holl ddata (arweinydd: Paul Rayson)

O ran datblygu'r tagiwr semantig Cymraeg, mae'r lecsiconau semantig Cymraeg wedi cael eu hehangu'n bellach gan ddefnyddio mwy o adnoddau geiriadurol, yn enwedig cronfa ddata

TermCymru, sef banc o dermau a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru. Bu WP3 yn canolbwyntio'n ddiweddar ar echdynnu ymadroddion aml-eiriau (MWE) Cymraeg a nodi eu categorïau semantig cywir trwy'r banc termau dwyieithog. Yn y cyfamser, datblygwyd safle demo ar y we (<http://phlox.lancs.ac.uk/ucrel/semtagger/welsh>) a rhyngwyneb i ddefnyddwyr bwrdd gwaith (GUI) ar gyfer fersiwn gyfredol y tagiwr semantig Cymraeg i bobl roi cynnig arni a'i phrofi. Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd y tîm yn gweithio ar ddatblygu'r tagiwr semantig Cymraeg ymhellach trwy brofi ac ymgorffori dulliau mwy effeithlon o ddiawnyso synnwyr geiriau ac archwilio mwy o adnoddau corpws a geirfaol.



Nod: Cwmpasu/llunio'r pecyn cymorth pedagogaid ar-lein (arweinydd: Enlli Thomas)

Yn ein diweddariad diwethaf (rhifyn 7), sonion ni am ein holiadur ar-lein a fydd yn ein helpu ni i deilwra ein pecyn cymorth pedagogaid yn ôl anghenion athrawon a myfyrwyr. Yn ogystal â'r holiadur, rydyn ni wedi bod yn cwrdd ag athrawon a thiworiaid wyneb-yn-wyneb, i godi ymwybyddiaeth o'r corpws a'r pecyn cymorth pedagogaid, ac i barhau i gasglu safbwyntiau a fydd yn helpu llunio datblygiad y pecyn cymorth. Mae hi wedi bod yn fendigedig gweld brwdfrydedd yr ymarferwyr tuag at y corpws a'r hyn y gallai ei gynnig i athrawon a dysgwyr, y tu mewn i'r dosbarth a'r tu allan iddo. Mae hi wir yn faint cael gweithio ar rywbeth sydd â'r fath botensial i fod o fudd i ddyfodol dysgu Cymraeg!



Nod: Adeiladu seilwaith i gynnal CorCenCC a chreu'r corpws (arweinydd: Irena Spasić)

Rydym wrthi'n gwneud gwaith ar ddatblygu ein hoffer holi corpws pen blaen y bydd pobl – yn y pen draw – yn eu defnyddio i chwilio am eiriau, cystrawennau a gwybodaeth yn CorCenCC. Wrth i ddata ddechrau llifo i mewn o becynnau gwaith eraill, byddwn yn gallu poblogi'r offer pen blaen hyn a chyn bo hir bydd pobl yn gallu dechrau defnyddio'r adnodd ac archwilio'r defnydd cyfoes o'r Gymraeg! Hefyd, rydym wedi bod wrthi'n gweithio ar ddatblygu fersiwn Android o ap torfoli CorCenCC sy'n dod ymlaen yn dda.

Cynlluniau, cynadleddau a digwyddiadau ar y gweill

Dros yr wythnosau nesaf, bydd tîm WP1 yn parhau i ymweld â siroedd ar draws Cymru i gasglu data. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys recordio mewn nifer o ddigwyddiadau, o gyfarfodydd mewnol, darlithoedd cyhoeddus, boreau coffi ac ymarferion côr, i ddigwyddiadau a gwyliau cyhoeddus megis Sesiwn Fawr Dolgellau a Gŵyl Wanwyn y Sioe Frenhinol – heb sôn am Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol!

Ond nid casglu data yw'r unig waith sydd ymlaen yr haf yma. Bydd aelodau tîm CorCenCC yn cyflwyno gwaith y prosiect yng nghynhadledd ryngwladol Corpus Linguistics 2017 hefyd! Dros bum niwrnod y gynhadledd, byddwn ni'n rhoi pedwar cyflwyniad a chyflwyno poster hefyd, er mwyn codi ymwybyddiaeth o wahanol becynnau gwaith y prosiect ymysg ymchwilwyr eraill. Dyma fanylion y papurau:



- Piao, S., Rayson, P., Watkins, G., Knight, D. a Donnelly, K. (2017). Towards a Welsh Semantic Tagger: Creating Lexicons for A Resource Poor Language. Papur i'w gyflwyno yn y *Corpus Linguistics Conference 2017*, Gorffennaf 2017, Prifysgol Birmingham.
- Rees, M., Watkins, G., Needs, J., Morris, S., a Knight, D. (2017). Creating a Bespoke Corpus Sampling Frame for a Minoritised Language: CorCenCC, the National Corpus of Contemporary Welsh. Papur i'w gyflwyno yn y *Corpus Linguistics Conference 2017*, Gorffennaf 2017, Prifysgol Birmingham.
- Neale, S., Spasić, I., Needs, J., Watkins, G., Morris, S., Fitzpatrick, T., Marshall, L., a Knight, D. (2017). The CorCenCC Crowdsourcing App: A Bespoke Tool for the User-Driven Creation of the National Corpus of Contemporary Welsh. Papur i'w gyflwyno yn y *Corpus Linguistics Conference 2017*, Gorffennaf 2017, Prifysgol Birmingham.

- Needs, J., Knight, D., Morris, S., Fitzpatrick, T., Thomas, E.M. a Neale, S. (2017). "How will you make sure the material is suitable for children?": User-informed design of Welsh corpus-based learning/teaching tools. Papur i'w gyflwyno yn y *Corpus Linguistics Conference 2017*, Gorffennaf 2017, Prifysgol Birmingham.
- Knight, D., Fitzpatrick, T., Morris, S., Evas, J., Rayson, P., Spasić, I., Stonelake, M., Thomas, E.M., Neale, S., Needs, J., Piao, S., Rees, M., Watkins, G., Anthony, L., Cobb, T.M., Deuchar, M., Donnelly, K., McCarthy, M. a Scannell, K. (2017). Creating CorCenCC (Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes - The National Corpus of Contemporary Welsh). Poster i'w gyflwyno fel rhan o Drac Posteri Corpora Cenedlaethol CMLC-BigNLP2017 yn y *Corpus Linguistics Conference 2017*, Gorffennaf 2017, Prifysgol Birmingham.

Myfyrio o'r tu fewn

Er mwyn i bawb gael gwell syniad o sut brofiad yw bod yn aelod o dîm CorCenCC 'yn y maes' (h.y. helpu i gasglu data), rydym wedi gofyn i ddau o'r ymchwilwyr ar Becyn Gwaith 1 i fyfyrio ar y cwestiynau canlynol:

- Beth yw uchafbwyntiau'r broses o gasglu data i chi hyd yn hyn?
- Pa fath o bethau sy wedi bod yn dda/yn ddiddorol a beth oedd y prif heriau?
- Beth yw eich cynlluniau nesaf ar gyfer casglu data?

Jennifer: "Mae recordio data ar gyfer CorCenCC wedi rhoi'r cyfle i fi fynychu pob math o ddigwyddiad fyddwn i ddim wedi'i brofi fel arall: ces i groeso cynnes iawn mewn dosbarth barddoniaeth yng Ngorllewin Cymru, ac eto mewn cystadlaethau siarad cyhoeddus yn y Gogledd a'r De. Roedd y profiadau'n wahanol iawn, ond i gyd yn ddiddorol iawn – mwynheais i'n fawr iawn! Ac yn fuan iawn bydda i'n ymweld â Chanolbarth Cymru a mynychu Gŵyl Wanwyn y Sioe Frenhinol! Mae'r rhain oll yn enghreifftiau eitha unigryw o sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yng Nghymru heddiw, ond un o'r pethau



Jennifer Needs



gorau am y gwaith casglu data yw'r cyfle i glywed y Gymraeg yn cael ei siarad mewn sefyllfaoedd pob dydd – mewn siopau a chaffis, er enghraifft. Cwrddais i â chwepwl o fenywod a oedd wedi dod i gaffi i "ddal lan" dros ginio, a phan esboniais i am brosiect CorCenCC a gofyn am ganiatâd i'w recordio, roedden nhw'n frwdfrydig iawn am y syniad o'r corpws ac yn gwbl fodlon cyfrannu ato. Cawson nhw sgwrs naturiol iawn, gyda'r peiriant recordio jyst yn rhedeg yn y cefndir. Perffaith! (Os hoffech chi gyfrannu sgwrs debyg, cysylltwch â ni! Cofiwch ein bod ni'n newid unrhyw enwau sy'n codi,

felly does dim rhaid osgoi clecs!) Ces i fy ngwahodd hefyd i recordio cwpl o deuluoedd yn eu cartrefi – cyfleoedd ardderchog eraill i recordio iaith naturiol iawn. Mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i gyfleoedd o'r fath, fodd bynnag, oni bai bod yr ymchwilydd eisoes yn adnabod aelod o'r teulu. Dyna un o'r rhesymau pam bod ap CorCenCC yn syniad mor wych – mae'n rhoi'r cyfle i bobl recordio'u sgysiau eu hunain, heb fod rhaid i un o ymchwilwyr CorCenCC fod yna (yn effeithio ar yr awyrgylch!). Mae dros hanner miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac



Gareth Watkins

allwn ni ddim gwahodd ein hunain draw i gartrefi pob un! Ond mae'n hawdd iawn i bobl lawrlwytho'r ap a chyfrannu'r ffordd yna – hoffen ni weld llawer o bobl yn rhoi cynnig ar ddefnyddio'r ap, gan fod casglu iaith naturiol pob dydd yn rhan bwysig iawn o'n gwaith. (Ydych chi wedi trio'r ap eto? Mae e ar gael drwy'r Apple Store, ac mae fersiwn Android ar ei ffordd!)"

Gareth: "Uchafbwynt y casglu data hyd yma? Wel, mewn gwirionedd, mae pob sesiwn recordio yn uchafbwynt. Mae cael gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio, ac yn fwy na 'ny, yn ffynnu yn ein dinasoedd, ein pentrefi, ein trefi, ein cartrefi, ein caffes ac ein (hic) tafarnau yn brofiad gwych, yn fraint. Mae darbwyllo ambell un i gael ei recordio wedi bod yn her. Mae rhai yn credu bod eu hiaith nhw ddim yn ddigon da

(dim yn wir - rydyn ni eisiau casglu Cymraeg PAWB). Mae eraill yn swil. Ond fel arfer mae hyd yn oed y person mwyaf swil yn anghofio bod y peiriant recordio o'u blaenau nhw ac yn sgwrsio i ffwrdd yn fodlon yn y pen draw. Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â mwy byth o bobl sy'n siarad Cymraeg yn y misoedd nesaf, wrth i mi ymweld â Chastell-nedd a Phort Talbot, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg a Phen y Bont."

Mae Siân yn cyfrannu at CorCenCC - Byddwch fel Siân!



Pwy ych chi?

Siân Griffiths ydw i a dwi'n brif Swyddog Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy. Mae canolfan y Fenter wedi'i lleoli yn Neuadd Iago Sant, lawr ym Mhont-y-pŵl



Beth yw gwaith y Fenter Iaith?

Ni yw'r unig fenter yng Nghymru sy'n gyfrifol am dair Sir. Felly mae llawer iawn o waith 'da ni i'w wneud! 'Dŷn ni'n canolbwytio'n bennaf ar ddatblygu'r Gymraeg yn y gymuned, er lles plant a phobl ifanc, teuluoedd, pobl sy'n dysgu, neu unrhyw un arall sy'n awyddus i ddefnyddio'i Gymraeg neu i ddatbygu ei sgiliau iaith.

Sut ddaethoch chi i wybod am CorCenCC?

Wel, mae Cymru yn fyd bach a digwydd bod, ro'n i eisoes wedi cwrdd ag un o gynorthwyr ymchwil CorCenCC ym maes Cymraeg i Oedolion.

Cysylltodd hi ar ôl dechrau yn ei rôl newydd a daeth hi draw i gael gair gyda fi i esbonio beth oedd nod y gwaith. Ers hynny 'dyn ni wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'n gilydd. Dwi wedi bod yn e-bostio adroddiadau ac yn y blaen ati er mwyn iddyn nhw gael eu cynnwys yn y corpws. Hefyd, mae hi wedi bod yn mynychu digwyddiadau'r Fenter a recordio'r bobl sy wedi bod yn bresennol yn siarad. Yn y pen draw, bydd y sgwrsiau hynny'n cael eu trawsgrifio a'u hychwanegu at y corpws hefyd.

Pam oeddech chi wedi cytuno i helpu?

Yn fy marn i, mae'r prosiect yn un pwysig sy'n mynd i fod yn gefn i'r Gymraeg yn y dyfodol. Dwi'n gallu gweld potensial mawr i'r corpws fel sail i ymchwil sy'n cofnodi datblygiad yr iaith drwy gymharu defnydd geiriau, tafodieithoedd ac yn y blaen. Ar ddiwedd y dydd, bydd hynny o fudd i ni i gyd. Hefyd, mae'r corpws yn mynd i fod yn adnodd defnyddiol iawn i diwtoriaid a phobl sy'n dysgu'r iaith. Ac wrth gwrs mae gyda ni ganran uchel o bobl sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ardal hon.

A fydd gan y corpws unrhyw fanteision penodol i bobl yn eich ardal chi?

Fel o'n i wedi'i ddweud ar y cychwyn, dwi'n brif swyddog ar Fenter sy'n gyfrifol am dair sir, ac mae dwy o'r siroedd hynny'n cynnwys ardaloedd difreintiedig. Yn amlwg mae'r ffaith fod yr adnodd hwn yn mynd i fod ar gael ar-lein yn rhad ac am ddim i bawb, yn mynd o fod yn beth gwych i ni yma.

Os ydych chi eisiau cael sgwrs am gyfrannu at y corpws, anfonwch e-bost aton ni ar corcenc@caerdydd.ac.uk a bydd Jenny, Gareth neu Mair (ein cynorthwyr ymchwil) yn dod 'nôl atoch. Edrych 'mlaen at glywed gennych.



Menter Iaith BGTM: Manylion Cyswllt

Rhif ffôn: 01495 755861

Ebost: gwybodaeth@menterbgtm.org

Gwefan: www.menterbgtm.cymru

Twitter: @MenterBGTM1

Facebook: <https://www.facebook.com/menterbgtm/>

Canolfan Iago Sant

Heol Hanbury

Pont-y-pŵl

Torfaen, NP4 6JT

01495 755861


Cwrdd â'r tîm

Bob mis byddwn yn rhoi sylw i aelod gwahanol o'r tîm CorCenCC estynedig yn ein cylchlythyr. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bawb ddweud ychydig wrthyh chi am eu cefndir; beth maen nhw'n dymuno ei weld gan CorCenCC a sut maen nhw'n credu y gallai gyfrannu at eu gwaith eu hunain, neu yn fwy cyffredinol, at waith eraill yng Nghymru. Y mis yma mae'r sbotolau ar Steven Neale, sy'n gynorthwydd ymchwil ar brosiect CorCenCC ym Mhrifysgol Caerdydd.

Proffil: Steven Neale

Dwi wir yn hoffi'r darnau 'Dewch i gwrdd â'r Tîm' yma. Yr holl bobl yma dwi'n gweithio gyda nhw o ddydd i ddydd, neu'n eu gweld yn eithaf rheolaidd yn y gwahanol gyfarfodydd prosiect, ac mae rhywbeth diddorol bob amser i'w ddarganfod am eu cefndir nad o'n i'n ei wybod o'r blaen. Mae ysgrifennu fy narn fy hun yn eithaf tebyg – mae cael munud i ystyried sut cyrhaeddais lle rydw i, wedi gwneud i mi eistedd yma gan feddwl 'wnes i hynny go iawn? Siawns bod hynny i gyd wedi digwydd i berson arall?'. Mae'n debyg y gallech chi ddweud fy mod i wedi dilyn llwybr eithaf anghonfensiynol i gyrraedd y man hwn (ac felly, CorCenCC), ond mi wnaf fy ngorau i grynhoi'r hanes...

Cefais fy magu yn swydd Gaerlŷr, heb fwriad o gwbl i wneud unrhyw beth arall heblaw am weithio ym maes teledu a ffilm. Pwnc fy ngradd gyntaf oedd Cynhyrchu'r Cyfryngau, ac ar ôl ffilmio 'darn' pêl-droed yn arddull 'Match of the Day' ar gyllideb isel iawn, cefais fy swydd gyntaf, fel cynhyrchydd fideo yn ffilmio cyfweiliadau ac yn golygu uchafbwyntiau'r gemau yng Nghlwb Pêl-droed Nottingham Forest. Treuliais dymor yn gweithio'n agos gyda'r tîm, yn mynychu mwy o gemau nag y byddwn i erioed wedi meddwl oedd yn bosibl gyda fy nghamera yn fy llaw ac yn ceisio cuddio fy nghariad at y cystadleuwyr lleol (Derby County), cyn gadael i ddechrau swydd yr oeddwn i'n meddwl y byddai hi'n ddelfrydol, sef gweithio ym maes ôl-gynhyrchu mewn cwmni ffilmiau a darlledu yng nghanol Llundain. Ond ar ôl sylweddoli nad dyna'r swydd i mi, dychwelais i Brifysgol De Montfort yng Nghaerlŷr, ennill gradd meistyr mewn Technoleg Greadigol, ac – wedi cael fy ysbrydoli gan fy hoff ddarlithydd o ddyddiau Cynhyrchu'r Cyfryngau – dyma fi'n penderfynu dilyn gyrfa academiaidd.



Yn gyntaf – PhD. Dwi ddim yn siŵr o hyd sut symudais i Tasmania, Awstralia, i wneud y radd, ond dyna ni. Ro'n i wrth fy modd yn y byd academiaidd – yn datrys problemau, yn rheoli fy nhasgau ymchwil, hyd yn oed yn ysgrifennu'r papurau – ond do'n i ddim wedi dod o hyd i'm 'galwedigaeth' fel y cyfryw. Ro'n i wedi penderfynu gweithio ar Gyfrifiadura oherwydd ro'n i'n deall cyfrifiaduron o'm cyfnod ym maes y cyfryngau a thechnoleg greadigol, ac ro'n i'n teimlo, pan o'n i'n dod o hyd i thema a oedd yn cydio ynof i, y gallwn wthio pethau i'r cyfeiriad hwnnw. Ychydig a wyddwn fy mod i wedi dod o hyd i'r ffordd y byddwn i'n gwthio pethau yn fy amser fy hun. Ar hap, ro'n i wedi dechrau dysgu Sbaeneg ychydig cyn dechrau ar y PhD,

rywsut ces fy hun wedi fy amgylchynu gan 'hispanolhablantes' yn Tasmania ac yn ystod cyfnod cyfnewid ymchwil o 5 mis yn yr Almaen. A dechreuais nid yn unig wneud cynnydd go iawn gyda'r iaith ond teimlo'n angerddol amdani hefyd.

Doedd hi ddim yn hir cyn imi sylweddoli bod *ieithoedd + cyfrifiadureg* \approx *prosesu iaith naturiol (natural language processing (NLP))*. Yn fentrus, penderfynais geisio cael cyfnod ôl-ddoethuriaeth ym maes NLP – yn llawn cymhelliant ond heb fymryn o brofiad – ar ôl



gorffen fy noethuriaeth, a dwi'n fythol ddiolchgar i António Branco, a fentrodd roi fy nghyfnod ôl-ddoethuriaeth cyntaf imi ym Mhrifysgol Lisboa ym Mhortiugal mewn maes a oedd yn hollol newydd imi. Gweithiodd hyn allan yn dda (gobeithio y byddai yntau'n dweud yr un fath), a thros 18 mis ym mhrifddinas Portiwgal, ro'n i wedi dod o hyd i'm lle, wedi cyhoeddi papurau a magu profiad, ac ro'n i'n gwneud rhywbeth ro'n i wir yn dwlu arno. Anogodd hyn fi i gofleidio fy nhueddiadau 'tecaidd' - gwelais fy mod yn eithaf hoff o weithio ar y llinell gorchmynion ac ysgrifennu 'shell scripts' os oedd yr allbwn yn gysylltiedig ag iaith!

Ac felly, CorCenCC. Ar ôl cymaint o amser dramor mewn cymaint o leoliadau gwych, dwi ddim yn credu y byddai unrhyw le ond Cymru – gyda'r bywiogrwydd a'r diddordeb sydd yma yn yr iaith – wedi gallu fy nhemtio'n ôl i'r DU. Mae'r cyfle i weithio ar broblemau NLP yn Gymraeg yn ddigon cyffrous o safbwynt proffesiynol, ac fel rhywun sydd â diddordeb mewn dysgu ieithoedd, mae'r cyfle i gael profiad o'r Gymraeg i'r lefel hon o ddydd i ddydd yn gyffrous iawn hefyd. Ond rwy'n credu mai un o'r atyniadau mwyaf i CorCenCC i mi yw ei sefyllfa fel adnodd i ddysgwyr ac athrawon (ymysg eraill), ac ar ôl elwa'n enfawr o ddysgu ieithoedd fy hun, mae'n wych cael gweithio ar rywbeth y byddaf yn ei ddefnyddio fy hun pan fyddaf yn anghofio pa arddodiad i'w ddefnyddio wrth brynu pice ar y maen neu beint o Brains yn y blynyddoedd i ddod.

Steven Neale, NealeS2@caerdydd.ac.uk

CorCenCC ar-lein

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r prosiect hefyd ar gael drwy Facebook www.facebook.com/CorCenCC/; Twitter <https://twitter.com/corcencc> (gallwch ein trydar @CorCenCC). Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy anfon neges i gyfeiriad ebost y prosiect: corcencc@caerdydd.ac.uk neu ewch i'n gwefan newydd, sef: www.corcencc.cymru

Mae CorCenCC yn brosiect ymchwil a ariennir gan ESRC/AHRC (Grant Rhif ES/M011348/1). Mae tîm CorCenCC yn cynnwys y **Prif Ymchwilydd** - Dawn Knight; **y Cyd-Ymchwilydwr** - Tess Fitzpatrick, Steve Morris, Irena Spasić, Paul Rayson, Enlli Thomas, Mark Stonelake a Jeremy Evas; **y Cynorthwydwr Ymchwil** - Steven Neale, Jennifer Needs, Mair Rees, Scott Piao a Gareth Watkins; **y myfyriwr PhD** - Vigneshwaran Muralidaran; **Ymgynghorwyr** - Kevin Donnelly, Kevin Scannell, Laurence Anthony, Tom Cobb, Michael McCarthy a Margaret Deuchar; **Grŵp Ymgynghorol y Prosiect** - Colin Williams, Karen Corrigan, Llion Jones, Maggie Tallerman, Mair Parry-Jones, Gwen Awbery, Emyr Davies (CBAC-WJEC), Gareth Morlais (Llywodraeth Cymru), Owain Roberts (Llyfrgell Genedlaethol Cymru), Aran Jones (Saysomethingin.com) ac Andrew Hawke (Geiriadur Prifysgol Cymru).

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am gynnwys y cylchlythyr hwn, cysylltwch â Dr Dawn Knight: KnightD5@caerdydd.ac.uk

